**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Gorffennaf 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| P Downing | C R Doyle | D W Helliwell |
| B Hopkins | G J Tanner | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lyndsay Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L R Jones

---

## 10 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 11 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

## 12 Cyflwyniad - Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi.

Rhoddodd y Pennaeth Tlodi a'i Atal gyflwyniad i'r pwyllgor am y Gwirionedd am Dlodi. Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys: -

- Nothing about Us, without Us, is for Us;
- Meysydd eraill;
- Heb fod yn eiddo i'r cyngor;
- Egwyddorion;
- Yr Alban a Leeds;
- 6 cham allweddol enghreifftiol;
- Camau allweddol enghreifftiol;
- Cynnig Abertawe;
- Adnodd.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a gynhwysir yn y cyflwyniad fel a ganlyn: -

- Llwyddiant y prosiectau yn yr Alban ac yn Leeds;
- Yr angen i gynnwys pobl sydd mewn tlodi ar hyn o bryd;
- Mae'r angen i fod yn annibynnol ar y cyngor yn hanfodol;
- Y costau isel posib dan sylw;
- Sefydliadau â diddordeb a sut gallant gyfrannu mewn ffordd nad yw'n ariannol, e.e. trwy ddarparu adnoddau;
- Darparu adroddiad sy'n amlygu'r camau nesaf ac yn amlinellu'r cylch gorchwyl;
- Defnyddio profiad o ddigwyddiadau'r gorffennol a drefnwyd gan yr awdurdod i ddatblygu'r cynigion;
- Cyflymder araf newid, a chefnogi pobl yn awr pan mae angen cymorth arnynt fwyaf;
- Deall y bydd Comisiwn y Gwir am Dlodi'n brosiect mwy generig a fyddai'n ceisio deall y rhesymau dros pam mae pobl yn gwneud penderfyniadau, a hefyd yn eu cysylltu ag arweinyddiaeth y cyngor;
- Effaith bosib caledi parhaus ar wasanaethau anstatudol;
- Ni wnaed llawer o gynnydd yn y maes hwn dros yr 20 o flynyddoedd diwethaf;
- Yr effaith gadarnhaol y gallai'r prosiect ei chael a sut gellir ehangu hyn;
- Y stigma sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn tlodi ac annog mwy o onestrwydd;
- Trefnu diwrnod agored a gwahodd arweinwyr prosiectau tebyg eraill i gyfrannu.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Darparu adroddiad drafft gan y Cabinet sy'n amlinellu'r argymhelliad gan PDP i eirioli datblygu cynigion ar gyfer Comisiwn y Gwir am Dlodi Abertawe, ynghyd â darparu camau nesaf yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Darparu adborth am ymchwiliadau a chynnydd mewn meysydd eraill yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**13 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Ychwanegu adborth am ymchwiliadau a wnaed ar gynnydd mewn meysydd eraill ac adroddiad drafft y Cabinet mewn perthynas â Chomisiwn y Gwir am Dlodi i'w gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**